**Cofnodion o gyfarfod Cyngor Cymuned Llanrug a gynhaliwyd Nos Fawrth 17 o Hydref 2017 yn y Sefydliad Coffa, Llanrug.**

**Presennol:** Y Cynghorwyr Hefin Jones (Cadeirydd), Meryl Green (Is-gadeirydd), Meirwen Lloyd, Haf Williams, Alan Pritchard, Avril Jones, Clifford Williams, Goronwy Hughes, Philip Roberts, Richard Robinson, Martin Jones

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Rhys Parry, Llywelyn Williams, Cemlyn Jones

**Hefyd yn bresennol:** Y Cynghorydd Berwyn Parry Jones (Aelod dros Cwm y Glo ar Gyngor Gwynedd).

**Clerc:** Meirion Jones

**44. Croeso gan y Cadeirydd – ac i gydnabod cyfranogiad y diweddar Brian Jones.**

Estynnwyd croeso gan y Cadeirydd i bawb i'r cyfarfod a diolchodd i bawb am droi fyny i'r cyfarfod.

Adroddodd ar y golled yn ddiweddar i'r ardal o farwolaeth cyn aelod o'r Cyngor yma a Cyngor Gwynedd, Brian Jones. Estynnwyd cydymdeimlad y Cyngor tuag at y teulu a diolchwyd i'r Cynghorydd Martin Jones am fynychu'r angladd i gynrychioli'r Cyngor Cymuned

**Penderfynwyd:** Derbyniwyd y wybodaeth a cytunwyd i anfon llythyr o gydymdeimlad tuag at y teulu

**45. Derbyn Ymddiheuriadau**

Derbyniwyd yr ymddiheuriadau fel a nodwyd uchod a cydymdeimlwyd a'r Cynghorydd Rhys Parry a'r teulu am eu profedigaeth diweddar.

**46. Datgan buddiant personol.**

Rhain i'w cofnodi fel yn berthnasol

**47. Cadarnhau cofnodion cyfarfod mis Medi 2017.**

Cadarnhawyd y cofnodion yn gywir ac fe'i arwyddwyd gan y Cadeirydd.

**48. Materion yn codi o'r cofnodion**

Adroddwyd fod y Pwyllgor Hamdden wedi cyfarfod ac fe drafodwyd y trefniadau ar gyfer y coed Nadolig, y Dorch ar gyfer Sul y Cofio.

Adroddodd y Cadeirydd ei fod wedi cael cysylltiad gyda mudiad 'Backup' ar gyfer cael cyngor ar gyfer dyluniad giât ar gyfer cae chwarae Pwll Moelyn.

**49. I dderbyn sylwadau ar lwybrau cyhoeddus**

Adroddwyd fod dau o'r llwybrau cyhoeddus wedi angen eu torri;
Adroddwyd yn ystod y storm diweddara fod coeden wedi dod lawr ar lwybr Ogwen.
Nodwyd fod nifer o goed wedi dod lawr yn yr ardal gan gynnwys rhai wrth ymyl sgwâr Pwll Moelyn.

**Penderfynwyd:** Derbyn y wybodaeth

**50. I dderbyn adroddiad ar gyfarfod o Bwyllgor y Fynwent**

Adroddwyd fod cyfarfod o Bwyllgor y Fynwent wedi ei gynnal ac fe drafodwyd y canlynol;

Nodwyd fod llwybrau y fynwent angen eu glanhau a dylid cael pris gan dorrwr gwair y fynwent am lanhau'r llwybrau a'r ochrau;
Nodwyd fod un bedd yn y fynwent yn plannu blodau yn uniongyrchol ar y tir ac fod hyn yn groes i reol (12) o reolau'r fynwent. Dywed rheol 12..

"Ni chaniateir plannu blodau ar fedd ac ni fydd hawl i roi llestr neu ffiol blodau ond ar y garreg sylfaen. Bydd hawl gan y Cyngor i symud unrhyw lestr neu ffiol ychwanegol a hefyd tacluso'r fynwent a'i chadw yn drefnus ac yn ddiogel."

**Penderfynwyd:**

a) Derbyn y pris am lanhau'r llwybrau yn y fynwent a'r ochrau;
b) Byddai'r Cynghorydd Richard Robinson yn cysylltu a teulu'r i'w hysbysu o'r rheolau ac i'w annog i beidio plannu yn uniongyrchol ar y tir.

**51. I dderbyn adroddiad ar gyfarfod o'r Pwyllgor Hamdden ac i ystyried a derbyn pris am osod gasglu a gosod coed Nadolig Llanrug a Cwm y Glo.**

Adroddwyd fod y coed Nadolig wedi eu archebu. Adroddwyd mai yn y gorffennol fod yr aelodau wedi bod yn gosod y goeden Nadolig gan gynnwys ei addurno. Nodwyd nad oedd offer bwrpasol gan yr aelodau ar gyfer hyn a petai damwain yn digwydd, fe fyddai'r Cyngor yn gallu ysgwyddo'r cyfrifoldeb. Adroddwyd fod pris wedi ei dderbyn gan gontractwr oedd yn gwneud gosod coed Nadolig i sawl Cyngor gan gynnwys Criccieth a Pwllheli ac y byddai ef yn eu casglu a'r gosod yn Llanrug a Cwm y Glo. Adroddodd y Clerc ei fod wedi holi Cynghorau o gwmpas roedd yn defnyddio'r contractwr ac roedd pob un yn canmol ei waith. Nodwyd fod pris wedi ei dderbyn ar gyfer y gwaith.

**Penderfynwyd:** Symud ymlaen a gofyn i'r contractwr gasglu a gosod y coed Nadolig ar gyfer Llanrug a Cwm y Glo.

**52. I sefydlu gweithgor i greu holiadur cymunedol a pennu dyddiad cyfarfod.**

Yn sgil y drafodaeth sydd ar y gweill ar hyn o bryd gyda Cyngor Gwynedd am y posibilrwydd o'r Cyngor Cymuned fabwysiadu cyfrifoldeb am gae chwarae Cwm y Glo a Dolafon, penderfynwyd y byddai yn fanteisiol ymgysylltu a'r gymuned i weld beth yw eu disgwyliadau gan y Cyngor Cymuned ar gyfer y dyfodol. I'r perwyl hyn, roedd angen creu gweithgor fyddai yn creu holiadur cymunedol ac fe awgrymir fod aelodau Cwm y Glo yn cyfarfod i osod ffurf o gwestiynau ar yr holiadur.

**Penderfynwyd:** Yr aelodau ar gyfer Cwm y Glo i gyfarfod ar y 15fed o Dachwedd 2017 yn Menter Fachwen i drafod y cwestiynau.

**53. I ystyried a derbyn dyfynbris a dderbyniwyd ar gyfer gwneud gwaith cynnal a chadw ar barc sglefrio Cwm y Glo, yn unol a'r hyn a adnabyddir ar yr asesiad risg.**

**Penderfynwyd:** Derbyn y dyfynbris a symud ymlaen a'r gwaith

**54. I dderbyn diweddariad ddiweddara ar y trosglwyddiad asedau o Gyngor Gwynedd i'r Cyngor Cymuned ac i a gymeradwyo gwariant ar gyfer asesiad risg ar y meysydd chwarae ynghyd a penodi cyfreithiwr i weithredu ar ein rhan ar gyfer y trosglwyddiad.**

**Penderfynwyd:** Derbyn yr adroddiad a cytuno i ofyn wrth Mr Dylan Lloyd Jones os buasai ei gwmni yn gweithredu ar ran y Cyngor yn y broses o drawsgludo tir

**55. I ystyried ymateb Cyngor Cymuned Llanrug ar gyfer yr adolygiad annibynnol ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru.**

**Penderfynwyd:** Yr aelodau i ystyried yr adroddiad a dod a sylwadau yn ôl i'r Cyngor nesaf.

**56. I dderbyn adroddiad gan gynrychiolydd y Cyngor Cymuned ar gorff Llywodraethol Ysgol Gynradd Llanrug.**

Nid oedd adroddiad ar gael oherwydd fod y cynrychiolydd wedi ymddiheuro nad oedd yn gallu bod yn bresennol yng nghyfarfod heno

**57. I ystyried pa gamau i'w ystyried yn dilyn cwyn tuag at y gwasanaeth tan am beidio ymateb i'n cais. Nodwyd fod enw'r bachgen wedi ei dderbyn ond nid oedd cyfeiriad ar gael gan y gwasanaeth tan.**

**Penderfynwyd:** Pasio'r enw ymlaen i'r heddlu a gofyn iddynt hwy ymdrin a'r mater.

**58. I benderfynu ar ddyddiad ar gyfer cyfarfod o'r Pwyllgor Cyllid a Hamdden.**

**Penderfynwyd**: Pwyllgor Cyllid i gyfarfod ar 8fed o Dachwedd am 7:00 yn ac i ddilyn am 8:00 yn y Pwyllgor Hamdden

**59. I ystyried addasiadau i'r polisi iaith.**

**Penderfynwyd:** Cafwyd sawl trafodaeth ar y polisi a penderfynwyd ei roi yn un o' eitemau cyntaf ar agenda cyfarfod Tachwedd.

Daeth y cyfarfod i ben am 21:30

Arwyddwyd:

Cadeirydd                Dyddiad: